| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **14 Mai 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2013/14. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno ynghylch y Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu diweddariad i aelodau ar sefyllfa ariannol gyfredol y cyngor a chadarnhau cyllidebau gwasanaeth ar gyfer 2013/14.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Aelodau i nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

**4. Manylion am yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r cyngor ar gyfer 2013/14 **(Atodiad 1)**. Gan nad ydyw sefyllfa 2012/13 wedi'i chwblhau eto, nid oes unrhyw amrywiadau gwasanaeth i roi gwybod amdanynt ar hyn o bryd.

Mae Atodiad 2 yr adroddiad yn dangos y cynnydd hyd yn hyn yn erbyn yr arbedion a amlygwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2013/14. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon, mae 17% (£517K) o'r arbedion wedi'u cyflawni.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor a darparu strategaeth gyllideb y cytunwyd arni'n sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

**Cyllidebau Gwasanaeth**

Yn ystod y cyfnod hwn nid oes unrhyw amrywiannau sylweddol i'r adroddiad. Mae sefyllfa 2012/13 yn cael ei chwblhau a bydd yn llywio adroddiad alldro Mai a gyflwynir i'r Cabinet ym Mehefin. Cyfanswm net cyllideb y gwasanaeth a chorfforaethol yw £127.7miliwn.

Mae'r gyllideb i **ysgolion** wedi'i chynnwys yn Atodiad 1. Cyfanswm net y gyllideb i ysgolion yw £63.8miliwn. O fewn yr elfen cyllidebau ysgol heb eu dirprwyo, fe drosglwyddwyd cyfrifoldeb darparu clwb brecwast o grant penodol i Grant Cymorth Refeniw (GCR) y cyngor, ac o ganlyniad ceir tua £150k o arian ychwanegol. Rhagdybir y bydd yr arian ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at ddiogelu ysgolion a effeithir yn andwyol gan yr adolygiad fformiwla ariannu diweddar.

Mae cyllideb y **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** hefyd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 er hwylustod, ond mae adnoddau CRT yn gyllid ar wahân i brif adnoddau'r cyngor, a gellir ond eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau tai cyngor. Pennir cyllideb y CRT ar gyfer 2013/14 drwy dybio bod gwariant cyfalaf o £890k yn cael ei ariannu gan adnoddau refeniw, gan olygu bod gostyngiad wedi'i gyllidebu ym malans CRT o £103k. Rhagwelir y bydd y Cynllun Cyfalaf Tai yn gwario £9.1m a dylid cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2013/14.

Bydd newidiadau sylweddol i gyllid tai cyngor yng Nghymru'n cael eu cyflwyno naill ai yn ystod 2013/14 neu yn 2014/15. Mae'n debygol y bydd y CRT yn symud i fodel hunan ariannu a diddymir y system gymhorthdal genedlaethol. Mae sawl goblygiad posibl i'w hystyried ond y mater allweddol yw y bydd yn rhaid i'r cyngor brynu allan o'r system gymhorthdal a benthyciad ychwanegol i wneud hynny. Byddai'r benthyciad yn cael ei ariannu'n llawn gan adnoddau CRT presennol.

Mae crynodeb o'r **Cynllun Cyfalaf** wedi'i amgáu fel Atodiad 3. Mae hyn yn cynnwys y gwariant a gynlluniwyd yn erbyn y **Cynllun Corfforaethol.** Mae'r Cynllun Corfforaethol yn bwriadu darparu buddsoddiad dros £110miliwn mewn ysgolion, cyfleusterau gofal cymdeithasol a ffyrdd dros y bum mlynedd i ddod. Bydd ariannu allanol yn cyfrannu at gyfanswm cost buddsoddiad mewn ysgolion a ffyrdd ond mae'r Cynllun yn dibynnu ar adnoddau mewnol i ariannu benthyciad ac i ddarparu arian. Mae'r gofyniad ariannol dros y cyfnod dros £22miliwn. Dylai rhywfaint o hwn ddod o dderbyniadau cyfalaf ond bydd y mwyafrif yn dod o gronfeydd ariannol wrth gefn cyfredol neu o adnoddau cyllideb a nodwyd i gynhyrchu arian i ariannu gweithgaredd buddsoddiad cyfalaf. Fe glustnododd cyllideb 2013-14 adnoddau o £600k yn benodol i gael ei ddyrannu i Gronfa Wrth Gefn y Cynllun Corfforaethol i gyfrannu at ariannu'r Cynllun Corfforaethol. Bydd esboniad manylach am y Cynllun Corfforaethol ac adolygiad o'r arian sy'n sail iddo yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym Mai.

Mae maint y Cynllun Corfforaethol yn golygu y bydd yn ymestyn dros gyfnod o 5-7 mlynedd ac yn sicr yn golygu wrth iddo ddatblygu, y bydd gwahaniaethau amser rhwng y rhagdybiaethau a gynlluniwyd a'r rhagdybiaethau gwirioneddol ynghylch y defnydd o arian. Gall hyn olygu y gall y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gynyddu hyd nes y gwneir ymrwymiadau. Fodd bynnag mae'n hanfodol cydnabod, os yw adnoddau'n cael eu hailgyfeirio yn ystod oes y

Cynllun, bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu pa brosiectau a nodwyd yn flaenorol y byddai eisiau eu canslo.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Gwasanaethau unigol sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau effaith ar eu cynigion arbed a gynhwysir yn y gyllideb. Cyflwynwyd crynodeb Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'r Cyngor yn Chwefror 2013 fel rhan o'r broses cymeradwyo cyllideb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd heriau gwasanaeth gyda phob pennaeth gwasanaeth a chynhwysodd bob her gynrychiolwyr o'r pwyllgor archwilio a'r Cabinet. Cynhaliwyd gweithdai Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb gydag aelodau ym Medi, Tachwedd a Rhagfyr. Cymeradwywyd y cynllun cyfalaf gan y cyngor yn dilyn archwiliad gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac argymhelliad gan y cabinet.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2013/14 ac yn dangos sut bydd cyllid y cyngor yn cael ei adrodd i'r Cabinet drwy gydol y flwyddyn. Disgwylir i wasanaethau ddarparu'r arbedion a gytunwyd drwy'r Heriau Gwasanaetha a'r broses pennu cyllideb. Mae'n bwysig bod y gwasanaeth yn parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun sefyllfa ariannol tymor canolig.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol. Yn sail i fforddiadwyedd y Cynllun yw rhagdybiaethau allweddol ynghylch cyllidebau refeniw ac arian. Bydd ailgyfeirio unrhyw adnoddau a nodwyd i ariannu'r Cynllun Corfforaethol yn golygu y byddai'n rhaid canslo prosiectau.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu a bydd methu â darparu strategaeth gyllideb y cytunwyd arni yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r blynyddoedd i ddod. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau y cyflawnir y strategaeth ariannol.

Mae risgiau penodol yn amlwg wrth ymdrin â phrosiectau cyfalaf a gall gynnwys gwariant a mynd dros amser, materion ariannu ac ystyriaethau eraill nad ydynt yn ariannol. Mae dull cymeradwyo effeithiol a monitro ariannol agos ac adrodd, ynghyd â threfnau rheoli prosiect effeithiol, yn helpu i leihau'r risgiau hyn.

Mae’r CRT yn gwneud buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella’r stoc tai a defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu’r gwaith. Rhaid i unrhyw fenthyciad fod yn fforddiadwy ac mae monitro rheolaidd a chymeradwyaeth blynyddol ac asesiad hyfywedd o'r Cynllun Busnes Stoc Tai yn sicrhau mai felly y mae.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

. Gofynnir i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.